YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 37. RHIF 6 TACHWEDD 2015 50c

# Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl 2015

Cynhaliwyd ail Gystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl ar gwrs Clwb Golff Woolton, Lerpwl yn nechrau mis Medi. Braf oedd gweld baner y Ddraig Goch yn chwifio unwaith eto uwchben y Clwb drwy'r dydd. Bu cynnydd ers y llynedd yn nifer o gystadleuwyr (18). Roedd y tywydd yn fendigedig. Tîm Alun Davies (Woolton) enillodd y wobr i'r triawd gorau. Unwaith eto Eirlys Bailey enillodd y wobr i'r merched a Dr. John Williams y wobr i'r dynion. Gwnaethpwyd £600 o elw tuag at yr elusennau '***Gafael llaw'*** a ***'Home from Home'*** sef apêl Ysbyty Walton. Diolchiadau arbennig i Mrs. Hilda Thomas unwaith eto am fod mor egnïol gyda'i hymdrech i werthu y ticedi raffl! **Edrychwn ymlaen am y drydedd gystadleuaeth ar Fedi 14eg, 2016.**

I gloi y diwrnod cawsom pryd ardderchog a chyfle i groesawu rhagor o Gymry Lerpwl i gymdeithasu, i dderbyn gwobrau, ac i brynu rhoddion a gyflynwyd tuag at yr Ymdrech a'r elusennau. Bu hi yn noson gofiadwy iawn a da gweld y Cymry yn gwneud ei marc ym myd golff. **Cofiwch 14 Medi 2016.**

(mwy o luniau ar y dudalen gefn)



*Brian Thomas (ail), John Williams (cyntaf) a Phil O'Connor (trydydd)*



*Ygolffwyr a'r gwestion*

## YN Y RHIFYN HWN:

COFFÂD I NANCY EVA JONES
PARCHEDIG DAVID GEORGE
GEOFFREY DAVIES.
NEWYDDION BETHEL, BETHANIA,
CYMRY LERPWL,
CYMRY BIRKENHEAD.
TUDALEN TREULIO AMSER DIFYR
THEATR CLWYD YN ESQUEL

Golygyddol

# DIM BYD WEDI NEWID

## gan D. Ben Rees

Wrth astudio hanes yr hen fyd a'n byd modern ni synhwyrwn fod byd o wahaniaeth. Mae byd o wahaniaeth rhwng dyddiau fy mebyd a dyddiau mebyd y genhedlaeth sydd yn tyfu heddiw. Ac eto mae'r byd yr un fath o ran yr angen mawr. Byd yw'r byd hwn i ran fwyaf o bobl y tu allan i Orllewin Ewrop, Awstralia, Canada a'r Unol Daleithiau sydd yn wir argyfyngus. Gwelwn ym mhob gwlad ormod o dlodi, mwy na digon ohono a dioddefaint trwy afiechydon poenus, gwelwn dristwch am nad yw pobl yn caru ei gilydd, neu o leiaf yn parchu ei gilydd, a phrofwn drueni yr anabl, y cloff, y dall, y byddar a phob un sy'n gorfod teithio mewn cadair olwyn. Llusgo byw yw peth fel yna.

Ond nid yw'r rhestr heb ei gwblhau. Meddylier am erledigaeth ar bobl dda o bob crefydd o dan haul y nen. Islamiaid sydd ar ben y rhestr am erlid Cristnogion yn y Dwyrain Canol a'r Dwyrain Pell. Ni wn am un enghraifft o Gristnogion yn erlid pobl o grefyddau eraill. Ond gwn mai Bwdhistiaid yw treiswyr yr Islamiaid yn Burma, a'r ddelwedd sydd gennym ohonynt hwy yw pobl heddychlon, annwyl ond nid bob amser.

Ond yr hyn sy'n gwenynwo y ddynoliaeth yw rhyfela. Y mae ysbryd cas, creulon yn llechu ym mhob person. Dyna sy'n gyfrifol am ein trueni pennaf. Soniais yn ddiweddar ein bod fel pobl y byd wedi profi ond tri chan mlynedd o heddwch a chymod allan o bedair mil o flynyddoedd! Anodd amgyffred y fath ffaith. Rhwng 1840 a 1940 bu Prydain yn amladd 79 o ryfeloedd a Ffrainc yn dynn ar ein sodlau gyda 71 o ryfeloedd. Yr ydym fel Prydeinwyr yn bobl ddigon militaraidd, cofio rhyfeloedd yw un o'n pleserau pennaf!

Yn wir mae Anthem Genedlaethol y Cymry yn mawrygu y milwr. Militariaid yw ein harwyr yng Nghymru – Owen Glyndŵr ar ben y rhestr, ac yn ei ddilyn Cyrnol John Williams (Brynsiencyn). Canwn gydag afiaith am y rhyfelgwn wrth ganu Hen Wlad fy Nhadau. Ond mae Anthem Genedlaethol y Saeson yn waeth byth, a meddylier am y Wasg a'r Teledu ac Aelodau Seneddol Llafur yn collfarnu Jeremy Corbyn am iddo ymatal rhag canu yr Anthem Genedlaethol. Wyddoch chwi eiriau yr ail bennill? Wel dewch i ni ddadansoddi'r pennill am eiliad, Dyma'r geiriau adweithiol:

*O Lord, our God, arise,*
*Scatter our enemies*
*And make them fall.*
*Confound their politics,*
*Frustrate their knavish tricks*
*On Thee our hopes we fix,*
*God save us all.*

Yn awr gofynnwn i Dduw wasgar ein gelynion. Pwy yw'r rheiny? Y Cymry neu'r Gwyddelod, yr Albanwyr neu'r Ffrancwyr, y Rwsiaid neu pwy dywedwch? Ac yna *'And make them fall'*. Onid y frawddeg ddeifiol ydyw

*Confound their politics*

Pa wleidyddiaeth yr ydan ni yn sôn amdano? Pobl y chwith neu pobl y dde? Sosialwyr neu genedlaetholwyr? A ydym i gael gwared o'r Blaid Werdd, Plaid Cymru, Y Blaid ……? Ac y mae hi'n mynd yn dywyllach byth yn y bumed linell:

*Frustrate their knavish tricks?*

Byddwn yn falch o gael dipyn o oleuni ar y linell yma! Ond rhaid cyfaddef fod yr Anthem yn gwella yn y penillion sy'n dilyn, lle yr ydym yn cydnabod gwerth y Frenhines yn y drydedd pennill a ddathlodd yn ddiweddar 63 o flynyddoedd ar yr orsedd. Camp anhygoel sy'n haeddu pob gwrogaeth. A chytunaf gant y cant a'r pennill olaf:

*Not on this land alone*
*but be God's mercies known*
*from shore to shore.*
*Lord, make the nations see*
*that all should brothers be*
*and form one family*
*the wide world o'er.*

Haedda'r pennill yma gael ei ganu gyda'r arddeliad, dymuniad gwir pob person call led led y byd!

**Noson Lawnsio cyfrol**

# Di-Ben-Draw

**Hunangofiant Ben Rees**
**o Landdewibrefi**
**i Lerpwl**
**ar**
**Nos Lun, 23 Tachwedd**
**2015**
**yng Nghanolfan Cymry Lerpwl,**
**Auckland Road/Heathfield Road**
**L15**
**am 7.30 o'r gloch.**

**Croeso cynnes i bawb**

***Cyhoedder y gyfrol gan Wasg y Lolfa,***
***Talybont, Ceredigion***

*Coffâd*

# Mrs Nancy Eva Jones

**(1929 – 2015)**
**Llanberis (gynt o Lerpwl)**



*Nancy Eva Jones*

**Yn dilyn gwaeledd hir a blin, bu farw Nancy Eva Jones yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli ar 28 Awst, 2015 yn 85 mlwydd oed. Daw llu o atgofion inni yn Lerpwl amdani, a'i chyfraniad pwysig i fywyd y cartref, byd addysg a thystiolaeth yr Eglwys Anglicanaidd Gymraeg. Treuliodd rhan dda o'i bywyd yn Lerpwl, hi a'i phriod Ralph. Yma y ganwyd ac a magwyd ei merch, Eryl, a da y cofiaf amdani yn mynychu y Gorlan yng nghapel Heathfield Road. Dilynodd Eryl llwybrau ei rhieni, a chyfranodd hithau i Anglicaniaeth, a bellach yn wraig i'r Parchedig Ganon David Parry.**

**Cyfranodd Nancy i gerddoriaeth, a bu yn aelod brwdfrydig o Undeb Gorawl Cymry Lerpwl am flynyddoedd lawer. Arferem ganu ei gwaith yn Oedfa'r Carolau a deil ei chyfraniad trwy hyn a hefyd fel cydawdur *Caneuon Ffydd.* Ar ôl ymddeol i Lanberis bu yn aelod o Gôr Prifysgol Bangor a Chantorion Llanberis. Gelwid hi yn gyson yn Lerpwl a Llanberis i ganu alto mewn pedwarawdau/wythawdau ac yn enwedig a'r Plygain.**

**Fel prifathrawes yr oedd ymhlith y goreuon, a daeth Ysgol Gynradd Mosspits yn Wavertree yn Ysgol i'w edmygu o dan ei harweiniad. Ni all unrhyw Ysgol lwyddo heb Brifathro neu Brifathrawes o safon, a dyna a brofodd rhieni a phlant cylch Woolton Road. Chwithdod mawr i ni Gymry Lerpwl oedd pan benderfynodd Ralph a Nancy ymddeol o Childwall i Ffordd yr Orsaf, Llanberis. Ond ni chollwyd cysylltiad. Bu'r *Angor* yn ein clymu ni â'n gilydd a chefnogwyd ni yn haelionus ganddynt. Daliodd yn fawr ei chyfraniad, ac er ei llesgedd, braf oedd dathlu ar Awst 1, 2015 penblwydd diamwnt ei phriodas.**

**Bu'r arwyl ar 7 Medi yn Eglwys Sant Padarn ac yna ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlwn â'i phriod Ralph, y ferch Eryl a'r mab-yng-nghyfraith Canon David Parry, yr wyresau Gwen ac Anna a'i chwiorydd Olwena ac Eira yn y brofedigaeth lem. Diolchwn i Dduw am ei bywyd hardd, ei chyfraniad a'i chyfeillgarwch i Gymry Lerpwl a'r 'hen wlad' wrth odre'r Wyddfa.**

***D. Ben Rees***

*Coffâd*

# Parchedig David George Geoffrey Davies,

**(1924 – 2015)**
**Allerton, Liverpool**

**Wrth ddychwelyd o'm gwyliau eleni trist oedd cael gwybodaeth ar y rhyngrwyd o farwolaeth y Parchedig Geoffrey Davies yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl. Yn y blynyddoedd diwethaf daeth ef a ni'r Cymry yn agos i'n gilydd, a braf bob amser oedd ei gwmni yn arbennig ar ôl iddo symud 4 mlynedd yn ôl gyda'i ferch a'r mab yng nghyfraith a'i fab i fyw yn Sinclair Drive.**

**Ganwyd ef yn nhref Aberhonddu a bu ewythr iddo yn Weinidog Presbyteraidd ac yn Lywydd Sasiwn y Dwyrain. Meddai ar gof manwl (a thrist gweld y dadfeilio a fu yn y cof hwnnw) a gallai sôn yn gyson am gymeriadau pwysig ac annwyl yn ein hanes. Gweinidogaethodd fel offeiriad yn Eglwys yng Nghymru yn Abertawe a Rhiwabon ac yn ddiweddarach gyda'r Eglwys Anglicanaidd yn Lloegr, a chyfnod fel athro yn Ysgol Uwchradd Netherley a Ysgol Uwchradd Wigan.**

**Ar ôl ymddeol bu yn cynorthwyo Eglwys St. John's Tuebrook a hefyd Eglwys Anglicanaidd Gymraeg Dewi Sant, Sheil Road. Hoffai yn fawr iawn y Llyfr Gweddi Cyffredin a byddai copi wrth law ganddo bob amser yn ei ystafell fyw.**

**Yn ei flynyddoedd cynnar bu yn ganolwr i gemau pêl-droed yng Ngorllewin Cymru. Teithiai ar y trên fore Sadwrn o Abertawe i Benfro neu Geredigion i gadw trefn. Yn yr ugain mlynedd o 1989 i 2009 bu yn barod iawn i gynorthwyo eglwysi Cymraeg y Glannau a gwerthfawrogid ei gyfraniad yn yr oedfaon. Meddai ar lais cyfoethog, gallu i ddehongli Gair Duw a chynhesrwydd cymeriad. Dotiai at *Yr Angor* a darllenai ef yr un mor ofalus ag a wnai gyda'r *Guardian* a'r *Church Times.***

**Bu ei arwyl yn yr Eglwys Gadeiriol Anglicanaidd ac Amlosgfa Springwood ar 4 Medi 2015 a chynrychiolwyd eglwysi Bethel a Bethania gan ei harweinwyr yn y ddwy oedfa. Braint oedd cael bod yno. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i deulu yn Lerpwl, yng Nghymru a choffa da am un o dystion yr Arglwydd yn ein hoes ni.**

**D. Ben Rees**

## *Oedfa Ddiolch*

Oedfa Ddiolch oedd ail gyfarfod Cymdeithas Gymraeg Cymry Birkenhead a hynny yn Seion ar 28 Medi pryd y croesawyd y Parchg William Davies, Y Bala a chyn-weinidog ardal Uwchaled. Darllenwyd tair Salm a chododd y cennad ei destun o Thesaloniaid: 'Llawenhewch bob amser: ym mhob dim diolchwch'.

Plethodd y cennad yn gelfydd ei genadwri oamgylch rhieni yn dysgu y plant i ddiolch yna nodweddion Eglwys Crist sydd yn llawen, gweddïgar a diolchgar. Cydnabyddwn ein diolch i Dduw am ei fendithion tymhorol a'i rodd o Geidwad yn yr Oedfa ddiolch gofiadwy. Dymuniad y Llywydd, y Parchg Glenys Wilkinson, Heswall oedd i'r offrwm fynd at achos da, sef Llongau Trugaredd. Efallai i rai ohonom gofio ymweld â'r 'Anasatasia' yn y dociau. Cyfeiliwyd gan Terry O'Neill.

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Gobeithio i chi i gyd yn Weinidog ac aelodau fwynhau tymor yr Haf a chael cyfle i grwydro yn y wlad hon neu dramor i adnewyddu meddwl ac enaid. Ond cofiwn yn annwyl hefyd am y rhai ohonoch sydd yn gaeth i'ch cartrefi, ond serch hynny wedi cael teimlo dipyn o wres yr haul.

Dyma ni ar drothwy tymor newydd a phrysur yn ein hanes a llawer iawn o baratoadau wedi eu gwneud eisioes ar ein cyfer. Gwnawn yn fawr o'r cyfle i gyd-addoli ar y Sul, a mynychu yr amrywiol ddarpariaethau ar nos Lun. Braf yw cael dod at ein gilydd i addoli a chymdeithasu o wythnos i wythnos.

Bu farw y Parch Geoffrey Davies ddiwedd mis Awst a bu ei angladd yn y Gadeirlan Anglicanaidd ar Fedi'r 5ed. Bu cynrychiolaeth ohonom yno a bu ein gweinidog yn bresennol yn yr amlosgfa yn Springwood. Roedd yn ŵr annwyl a thyner iawn ac yn barod bob amser i lenwi ein pulpud er fod ei iechyd mewn cyflwr digon bregus. Bu yn arweinydd Eglwys Gymraeg Dewi Sant am flynyddoedd lawer. Diolch amdano a'i weinidogaeth.

Brawychwyd ni i gyd fel Cymry'r Glannau o glywed am anaf a ddigwyddodd i Mair Powell. Syrthiodd wrth ddod adre o ymarferion Undeb Gorawl Gymraeg Lerpwl a thorri ei braich. Derbyniodd driniaeth lawfeddygol yn yr Ysbyty Frenhinol Lerpwl. Dioddefodd lawer o boen, ond mae yn raddol liniaru erbyn hyn. Symudwyd hi i Ysbyty Broadgreen am ddwy noson, ond mae ar hyn o bryd mewn cartref yn Breckside Park, oddi ar Lower Breck Road yn Anfield.

Rydym eisioes yn gweld ei cholli yn fawr gan ei bod yn ferch mor ymroddgar ym mhob rhan o fywyd yr eglwys ym Methel. Ein dymuniadau gorau iddi yr anwylaf o'r anwyliaid.

***Seiat Ymweld yr Henaduriaeth –*** Cynhaliwyd seiat ymweld pnawn Iau, Medi 17eg. Trefnir gan Henaduriaeth Gogledd Ddwyrain i gynrychiolwyr ymweld â phob eglwys bob tair blynedd i ymchwilio i hanes yr eglwys. Bydd gweinidog a dau flaenor yn cyfarfod ran amlaf â'r blaenoriaid a swyddogion pob eglwys i archwilio'r llyfrau ac i wneud arolwg o fywyd a gwaith yr eglwys ac yna seiat agored i ddilyn.

Y Parch Huw Powell-Davies a ddaeth atom a Mr. Harri Bryn Jones, blaenor, y ddau o eglwys Bethesda'r Wyddgrug.

Trefnwyd cinio i ni yn y ganolfan. Bwyta oedd hi gan edrych ar y sgrin ar weithgarwch yr eglwys hon. Diolch i Beryl Williams am weini arnom mor ddeheuig.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn yn ystafell ein gweinidog ar hanes yr achos, yr adeiladau, y wedd ysbrydol ac ariannol ac hefyd ein deisyfiadau am y dyfodol. Bydd adroddiad yn mynd i'r Henaduriaeth gan y ddau gynrychiolydd, a chawn gopïau ohono.

Yn dilyn hyn am 2.45 y pnawn cafwyd seiat agored gyda'r aelodau. Canwyd emyn i agor, a darllenwyd hanes y Samariad Trugarog o Efengyl Luc gan Mr. Harri Bryn Jones. Cafwyd agoriad i'r seiat gan y Parch Huw Powell-Davies ar y testun "Pwy yw fy nghymydog?" Eglurodd i ni am y gwrthdaro a'r elyniaeth a fu rhwng yr Iddewon a'r Samariaid, ond i'r Iesu dorri i lawr y muriau. Mae cymydog yn gallu bod tu allan i'n cylch ni. Ydan ni'n meddwl am y rhai mewn angen? Beth yw ein hymateb ni i sefyllfaoedd megis cyflwr trychinebus y ffoaduriaid yn Ewrop. Cafwyd trafodaeth fywiog yn dilyn yr agoriad. Cawsom lawer i feddwl yn ddwys amdano.

Diolch i'r Parchedig Ddr. D. Ben Rees am lywio'r gweithgareddau.

**Y Gymdeithas Lenyddol –** Cafwyd cyfarfod agoriadol o'r Gymdeithas Lenyddol, ar nos Lun, Medi 21ain ac fel arfer cafwyd noson o cwis o dan ofal Anne M. Jones gyda Eryl Dooling yn llywyddu.

Rhannwyd ni i bedwar tîm ac yn fuddugol eleni oedd tîm Ifor, gyda chymorth Beryl, Olwen, Carys, Eryl a Margaret. Diolch i Anne am eu gwobrwyo ac am ei holl waith yn paratoi y cwestiynau amrywiol, ac i Lilian a Gwenfyl am y baned. Noson hwyliog a llawer o chwerthin.

Mynegodd ein gweinidog ein diolchiadau a gofidiai'n fawr i ni golli cwmni Mair, ysgrifenyddes y Gymdeithas ers blynyddoedd.

Nos Lun, Medi'r 28ain cafwyd cyflwyniad gan ein Gweinidog ar y testun 'Chwech o Gapeli Cymraeg. Soniodd am gapeli Soar y Mynydd; Seion (B) Llanelli; Mynydd Seion (MC) Abergele; Capel Mawr, Rhosllanerchrugog; Salem, Tregana, Caerdydd a Chapel Tegid Y Bala. Noson gartrefol ac addysgol a rhoddwyd cyfle i bawb ohonom gymryd rhan.

Ein dymuniadau gorau i Dr. Pat Williams, Awelon ar ôl y driniaeth ar amrant ei llygad. Cofiwn am yr holl gleifion yn ein gweddïau.

*[Oherwydd damwain fawr a ddaeth i ran Miss Mair Powell, paratowyd yr adroddiad hwn gan Mrs Nan Hughes Parry, a bodlonodd wneud hynny hyd nes i Mair fedru ail ymaflyd yn y gwaith. Bu'n ffyddlon iawn gyda'i ysgrifau ac adroddiad Bethel dros y blynyddoedd. Diolch i'r ddwy oherwydd. – oddi wrth y Golygydd]*



***Tîm buddugol y cwis***

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Llawenydd mawr i bawb ohonom oedd cael estyn ein llongyfarchiadau mwaf i Miss Dorothy Williams, Blundellsands ar gyrraedd ei phenblwydd yn 98 mlwydd oed ar Sul olaf Medi. Deil i fynychu yr oedfaon pan y medr, yn y pnawn, a mwynha y gymdeithas yn fawr. Cyfeiriodd y Gweinidog ati yn ei bregeth ar fore Sul, 27 Medi yn hen eglwys Christ Church pan ddaeth pedair eglwys Anglicanaidd ynghyd yn ogystal a ninnau i ddathlu dauganmlwyddiant bodolaeth Waterloo. Cyfeiriodd Dr. Rees am gyfraniad pob rhan o gymdeithas gan danlinellu fod deunaw o gwmniau adeiladu Cymraeg wedi bod yn gyfrifol am adeiladu rhan helaeth o'r dreflan. Ac un ohonynt oedd Thomas Williams, tad Dorothy a'r diweddar Mrs Gwen Roberts o annwyl goffadwriaeth. Braf oedd gweld y dyrfa ynghyd a chawsom ein harwain at Fwrdd yr Arglwydd gan offeiriad Eglwys Crist, y Parchedig Gregor Cuff, cyfansoddwr a dysgwr ein hiaith. Cyflwynodd y sacrament i'n Gweinidog wrth yr allor yn yr iaith Gymraeg, gweithred hardd a sensitif. Diolch iddo am ei arweiniad.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Croeso yn ôl i bawb i dymor arall Cymdeithas Cymry Lerpwl. Ar y noson gyntaf ar Fedi 15 cawsom y croeso arferol yng nghartref Nan Hughes Parry yn Woolton. Roedd y bwrdd yn llawn danteithion a chawsom ddigon o gyfle i siarad a chymdeithasu. Diolch i Nan am y paratoi a'r croeso.



*Gwilym Bowen Rhys*

Y nos Fawrth ganlynol daeth Gwilym Bowen Rhys atom i sôn am 'Hen Faledi a rhai newydd'. Dyma'r ail dro i Gwilym ddod atom y flwyddyn yma. Cafodd Gwilym a'i chwiorydd Marged ac Elen, sef grŵp 'Plu', amser prysur iawn yn Eisteddfod Meifod ym mis Awst. Unwaith eto cawsom noson hwyliog a dangosodd ei ddawn fel canwr, gitarydd a chyflwynydd. Cawsom ganddo hen faledi fel 'Fferm Bach y Saint' o Ben Lleyn, rhai o ganeuon J. Glyn Davies ac un o ganeuon Jac Glan Gors, bardd a dychanwr o Geredigion yr oedd yn dilyn y porthmyn i Lundain. Clywsom faled 'Iolo Lawngoch' a oedd Gwilym wedi ei chyfansoddi a'r faled 'Dŵr Tryweryn' yn sôn am chwisgi distyllty Fron-goch yn ymyl y Bala. Cafodd dwy o'r baledi eu canu ar ffurf cerdd dant ac gorffenwyd y noson gyda chlasur J. Glyn Davies sef 'Fflat Huw Pugh'.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Yn ôl ein harfer, noson gan y llywydd a agorodd ein tymor newydd ar nos Lun, 14 Medi. Yn nwylaw profiadol y Barch Glenys Wilkinson, cawsom noson hyfryd a chyfeillgar yn cyfarch ein cyd-aelodau wedi gwyliau'r haf. Gan Glenys clywsom hanes ei phrofiadau a'u meddyliau dros wythnosau'r haf. Bu hi a John yn teithio ac yn mwynhau y diddordebau a welsant, ac a glywsant ac a ddysgant. Aeth â ni ar daith o lannau Mersi lle cawsom oll benwythnos arbennig yn dathlu mordaith y "Mimosa" i ogofeydd Lascaux yn y Dordogne lle rhyfeddodd at grefftwaith hynafol a phaent disglair y darluniau cynhanesyddol unigryw. Ymlaen i eglwys Gadeiriol Carcasonne a chlywed côr gwych o Rwsia. Oddi yno, aeth Glenys yn ôl i ardal ei mebyd yn Sir Fôn ac ymweld â'r gloddfa copr yn Amlwch, a dysgu hanes am John Thomas Job yng nghastell Penrhyn, y gŵr digon di-nod a gadwodd teuluoedd y streicwyr mawr, yn fyw, trwy eu bwydo – dyna *"soup kitchen"* cyntaf Cymru!

Wedi ysbaid o gyd ganu hwyliog cawsom cwis byr am Gymru a'i sefydliadau Mr. Hywel Jones oedd yr enillydd y tro hwn.

Rhoddodd Iola Edwards amlinelliad o rhaglen y tymor inni a diolchodd ein llywydd iddi am ei gwaith yn paratoi a chwblhau'r rhaglen. Gwnaed y diolchiadau gan y cyn-lywydd Eirwen. Roedd Terry O'Neill yn cyfeilio a'r pwyllgor oedd yn gyfrifol am y te. Dechrau da i'r flwyddyn.

## CYFARWYDDYD GWERTH CHWEIL

**"Gwrando gyngor"** medd Llyfr y Diarhebion. Diolch i' r Parchedig Tom Wright am anfon y rhain atom. Daeth ar eu traws rai blynyddoedd yn ôl pan oedd yn Weinidog yng Nghaer.

1. Siaradwch â phobl. Mae gair siriol o gyfarch yn dderbyniol.
2. Gwenwch ar bobl. Fe gymerir 72 o gyhyrau i wgu a dim ond 14 i wenu!
3. Galwch ar bobl wrth ei henw. Sŵn melys i bob clust ydyw clywed eich enw.
4. Byddwch yn gyfeillgar. Os am gael ffrindiau, byddwch chithau yn ffrind hefyd.
5. Byddwch yn rhadlon. Siaradwch a gweithredwch fel pe bai'r cyfan a wnewch yn bleser go iawn.
6. Dangoswch ddiddordeb gwirioneddol mewn pobl. Mi ddowch i'w hoffi felly.
7. Byddwch yn barod i ganmol, yn gyndyn i feirniadu.
8. Byddwch yn sensitif i deimladau pobl eraill – fe werthfawrogid hyn.
9. Gwrandewch a byddwch yn ystyriol o safbwyntiau eraill. Dywedir bod tair ochr i bob dadl – eich un chi, un y person arall a'r un gywir.
10. Byddwch yn effro i bob cyfle i helpu, ac i fod o wasanaeth.

Yr hyn sydd yn cyfrif fwyaf mewn bywyd yn y pendraw, yw yr hyn wnawn dros bobl eraill. Safon rhy uchel i anelu ati? Efallai, ond mae'n werth trio. Mae bywyd yn felysach wrth geisio byw mewn perthynas dda â'n gilydd.


# DYLEDWR YDWYF I W. AMBROSE BEBB

## *gan y Parchedig Ieuan Lloyd, Llanfair P.G.*

Y mae'r cyfrolau *Bro a Bywyd* bellach wedi dod yn gyfres ddiddorol iawn, a chroesawn y gyfrol ddiweddaraf i gofio am un o feibion Maldwyn, sef Iorwerth Peate. Un arall o wŷr amlwg Cymru, a gwreiddiau ei deulu yn Llanbrynmair, oedd y diweddar W. Ambrose Bebb. Ceir ei hanes yntau yng nghyfres *Bro a Bywyd* wedi ei lleoti yn ardal Llanbrynmair. Oherwydd oddi yno yr ymfudodd ei hynafiaid i'r America. Ac, o gofio ei fod yntau fel Iorwerth Peate yn haeddu ei gynnwys ymhlith ein cymwynaswyr, braint imi yn ystod fy nyddiau cynnar oedd cael y cyfle i'w adnabod o fewn bryniau Maldwyn.

Prin y buasai'r 'teithiwr talog' yn ymdroi llawer yn ardal Melinbarhedyn ger Machynlleth, ac ychydig o ymwelwyr a ddeuai i'r gymdogaeth yn y cyfnod hwnnw. Ond yr oedd yna un eithriad, sef ymweliad Ambrose Bebb, ac yr oedd hwnnw yn ddigwyddiad o bwys i rai ohonom. Deuai i aros yn ystod gwyliau'r Coleg at ddau gefnder a chyfnither i'w dad sef, Edward Bebb Hughes ac Ann Hughes Cilywinllan a William Bebb Hughes, Llwynygronfa. Yr oedd y ddwy fferm yn yr un gymdogaeth ac yn weddol agos i'w gilydd, a golygfa gyffredin oedd gweld y gŵr tal o Fangor yn brasgamu rhwng y ddwy fferm a rhai o'i blant yn ei ddilyn. Roedd y teithiau hynny yn sicr yn ymarferiad da i Dewi Bebb cyn iddo gyrraedd y cae rygbi! Yr oedd aros yn y gymdogaeth yn hyfrydwch pur i Ambrose ac yn falm i'w ysbryd. Cyfeirir yn fanwl at yr ymweliadau hyn yn ei Ddyddiaduron 1940 a 41 – dyddiaduron sydd yn enghraifft arbennig o'i ddawn fel llenor fel y gwelwn yn ei sylwadau am Fehefin 16, 1941.

Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd fy ngwybodaeth am hanes Cymru yn ddigon bylchog, a'r gyfundrefn addysg yn rhannol gyfrifol am y diffyg hwnnw. Bu ymweliadau Ambrose Bebb yn gyfrwng i lenwi'r bwlch. Gwn erbyn hyn mai ef oedd un o'r rhai a'm symbylodd i ymddiddori yn ein hetifeddiaeth. Roedd y llyfrau Cymraeg ar hanes Cymru yn brin iawn rhwng y ddau Ryfel Byd ac yr ydym yn ddyledus iawn i Ambrose Bebb am ei gymwynas yn llenwi y bwlch hwnnw. Yr oedd cenedlaetholdeb iddo ef yn fwy na brogarwch. Oherwydd mae ei lyfrau yn profi bod ganddo ddiddordeb byw yn hanes Ffrainc a Llydaw yn ogystal â Chymru. Yr oedd yn perthyn i draddodiad Ewropeaidd Emrys ap Iwan.




Mae'n amlwg bod cadw dyddiadur yn rhan o'r fywyd beunyddiol a chafwyd detholiad o'i ddyddiaduron am y cyfnod 1920-1952 o dan olygyddiaeth Robin Humphreys ym 1996. Cyhoeddwyd cofiant iddo gan T. Robin Chapman yn y gyfres *Dawn Dweud* ac y mae'r gyfrol hon hefyd a ddaeth allan ym 1997 yn fwynglawdd o wybodaeth.

Deuthum i wybod yn fuan wrth fod yng nghwmni W. Ambrose Bebb fod ei grefydd yn ganolbwynt ei fywyd. Rhoddodd wasanaeth gwerthfawr fel athro Ysgol Sul yng nghapel Twrgwyn, Bangor am flynyddoedd, a gŵyr cenedlaethau o fyfyrwyr am ei gyfraniad unigryw. Credai ef fod yr Ysgol Sul yn un o sefydliadau pwysicaf ein cenedl. Erys ei lyfr ar gyfraniad yr *Ysgol Sul* a gyhoeddwyd ym 1944 yn ddogfen sy'n tanlinellu pwysigrwydd ffrwyth yr Ysgol Sul i fywyd Cymru. Ei brif bwyslais ar ddiwedd ei lyfr yw'r angen am athrawon ymroddedig. Cyflwynodd Ambrose ei lyfr er cof am wyth o athrawon a fu yn ei hyfforddi ef yn Ysgol Sul Capel Bwlchgwynt Tregaron. Ond nid yr ysgol Sul yn unig oedd maes diddordeb Ambrose Bebb. Yr oedd cyflwr crefydd yng Nghymru yn pwyso yn drwm ar ei feddwl. Erys ei lyfr *Yr Argyfwng* yn enghraifft o hynny – llyfr a gyhoeddwyd ym 1956, flwyddyn wedi ei farwolaeth sydyn. Y mae'r llyfr hwn yn cynnwys ei ddadansoddiad gonest o wendidau y gyfundrefn grefyddol. Ceryddodd ei gyd-grefyddwyr am ei fod yn eu caru.

Roedd y capel y cefais i fy magu a'm meithrin o fewn ei furiau yn fangre arbennig iddo ef. Yr oedd hynny yn naturiol, oherwydd cafodd ei hynafiaid ran amlwg yn y gwaith o'i adeiladu ym 1854. Ac yno i Beerseba, Melinbarhedyn a'r fro, y deuai yntau i addoli yn ystod ei ymweliadau. Yn ystod y cyfnod hwnnw roeddwn yn dechrau paratoi fy hun ar gyfer y Weinidogaeth. Ac wrth imi fwrw trem yn ôl eleni, a minnau wedi cael y fraint o fod yn Weinidog yr Efengyl am 62 o flynyddoedd, yr wyf yn ymwybodol iawn o'r cymorth a gefais gan amryw ffrindiau. Ac un o'r rheiny oedd y gŵr talsyth o Goleg Normal, Bangor. Cefais aml gyngor buddiol ganddo, o dro i dro, ar yr hyn fyddai'n fanteisiol imi i'w ddarllen i ehangu fy ngwybodaeth. Yr oedd ef yn gyfuniad o'r llenor, y dyddiadurwr, yr hanesydd, y addysgwr, y cenedlaetholwr a'r Cristion.

Bûm innau yn ddigon ffodus mewn cwmwd diarffodd ym Maldwyn i fwynhau ei gyfeillgarwch, ac i elwa yn helaeth ar ei gefnogaeth a'i arweiniad. Dyledwr ydwyf.

Tu mewn Tachwedd_Tud 8 Mehefin.qxd 17/10/2015 10:58 Page 7

# TUDALEN TREULIO AMSER DIFYR
# o dan ofal Ken Williams

**ANAGRAMAU – PWY YDYNT?**

1. "OLWYN GRWN DAI" a un o arwyr dewraf Cymry (5-7)
2. "TREFN BERYL" – Diolch iddi am un a llais rhagorol (4-6)
3. Ar "DRAETH GARW, DES" – ar draws un o'r gorau o'r pymtheg i chwarae i Gymru (5-7)
4. "LLAWN MELYS IMI" – actiwr a dramäydd ein gwlad (5-8)

***(Atebion ar dudalen 11)***

---

## GWNEUD GEIRIAU

| | | |
|---|---|---|
| P | A | S |
| A | TH | E |
| U | R | N |

O'r llythrennau yn y bocs ar y chwith gwnewch allan eiriau yn cynnwys o leiaf tair llythyren. Mae un gair yn cynnwys y cyfan; hint fechan "Tylwythau". Mae yma 30! A mwy? Y llythrennau i'w defnyddio unwaith yn unig.

***(Atebion ar dudalen 11)***


## PWY YDYNT

1. Sant sydd, wedi newid? (4)
2. Un mae neb yn troi nôl i edrych arno (3)
3. Merch sydd o hyd yn dod yma i'r Eisteddfod (4)
4. Pwy fyddai'n meddwl bod hon wedi ei geni mewn tŷ mawr o'r man ddaeth ei rhieni (5)
5. Dyn sydd yn "mynd" a'i "law" yn ei boced, efallai (7)
6. Mae torri lawr ar ei enw llawn yn well mewn ffordd – a bod yn anifail? (3)
7. Un, ie, a enw iddo (5)
8. … ac un arall, yn cael ei alw'n 'smart' (4)
9. Merch sy'n amgenach o'r dechrau (5)
10. Ann'n rhoi enw arall i ferch (7)
11. Robert bach, pa ffordd, yr un o hyd (3)
12. I "Fynwy am" ei chael heb ddicllonedd! (7)

***(Atebion ar dudalen 11)***

## MYND DROT DROI I'R DRE …

**i mofyn neges. Ond erbyn i Tomi gyrraedd y siop, roedd hanner ei bapur neges ar goll. Cofiodd fod ei fam wedi gofyn am –**




Ac fe lwyddodd y groser i ddatrys ei neges ymhen chwinciad llygad "Fedrwch chi".
Anfonwn eich papur neges i
Tomi c/o 32 Garth Drive, L18 6HW

# YMATEB MEWN BYR EIRIAU

Ugain cwestiwn o eiddo'r Dr. D. Ben Rees ac atebion gan

***Mrs Iola Evans, Croesoswallt*.**

**1. Ym mha le y ganwyd chwi?**
Bontuchel, ger Rhuthun yn yr hen Sir Ddinbych.

**2. Ydy'r fro honno yn dal i gefnogi capel ac eglwys fel y dylai?**
Ydyw – ond fel ymhobman arall maent yn colli'r plant a'r ieuenctid.

**3. Pwy oedd y person neu'r personau a wnaeth argraff fawr arnoch yn eich plentyndod (o 5 i 11 mlwydd oed)?**
Y Parchedig a Mrs W.O. Roberts – cyfarfodydd plant diddorol – caem gyfle i actio storïau o'r Beibl.

**4. Oes gyda chwi neges i Ysgolion Sul a Chyfarfodydd Plant y dyddiau hyn?**
Mae digon o adnoddau ar gael – oes modd ennyn diddordeb y rhieni yn y gweithgareddau?

**5. Pa adnod y cofiwch yn dda i chwi ei dysgu ar eich cof ar ddechrau'r daith?**
*'Iesu Grist ddoe a heddiw, yr un ac yn dragywydd.'*

**6. Pa emyn y byddwch yn falch bellach eich bod yn cofio'r geiriau a pham?**
*'Dod ar fy mhen dy sanctaidd law'* Gweddi Plentyn yw'r teitl, ond gweddi i bawb ydyw.

**7. Pa gyfrol o'r Hen Destament sydd yn peri llawenydd yn eich bywyd personol?**
Rhannau o'r Salmau – o ddyddiau plentyndod - *'Yr Arglwydd yw fy mugail'* a *'Cenwch yn llafar'* i enwi ond dwy Salm.

**8. Pa gyfrol o'r Testament Newydd sydd yn drysor i chwi o ddydd i ddydd?**
Yr Efengylau – maent o hyd yn newydd.

**9. Pa Gymro neu Gymraes o fewn Ymneilltuaeth y byddech yn hoffi treulio awr yn eu cwmni a pham?**
Ann Griffiths – i wrando arni'n mynegi ei phrofiadau.

**10. Beth yw neges sylfaenol (mewn deuddeg gair) yr Eglwys Gristnogolyn 2015?**
Dangos llawenydd, tangnefedd, addfwynder a chariad, a maddeuant Iesu Grist i'n cyd-ddyn.

**11. Pa ddihareb Gymraeg neu Saesneg sy'n crynhoi eich athroniaeth sylfaenol fel Cristion?**
*Heb Dduw, heb ddim; â Duw, â digon.*

**12. Beth sy'n peri gofid i chwi yn y gymdeithas seciwlar heddiw?**
Ein bod fel yr hen genedl yn troi at eilunaddoliaeth.

**13. A oes gennych eich hoff adeilad?**
Festri Uchaf (Oruwchystafell) capel Bontuchel lle cynhaliwyd y Seiat a'r Cyfarfod Gweddi pan oeddem blant.

**14. A fyddech chwi yn falch o weld Undeb rhwng yr Ymneilltuwyr yng Nghymru erbyn 2025?**
Buaswn, yn fwy na dim.

**15. A oes angen diwygiad Crefyddol fel a gafwyd ym 1904 yn y flwyddyn 2015?**
Mae angen ysgytwad arnom – ond nis gwyddom sut y daw.

**16. Pa arwyddair bachog sydd yn eich plesio fwyaf fel Cristion o argyhoeddiad?**
Little prayer – little blessing,
More prayer – more blessing
No prayer – no blessing.

**17. Rhowch sylw am y gyfrol swmpus *Caneuon Ffydd.***
Y cynnwys yn ardderchog, ond yn drwm i' w chario.

**18. Oes na le i un papur enwadol Cristnogol yn yr iaith Gymraeg bob wythnos?**
Oes, pe ond i gael newyddion da.

**19. A ydych fel crediniwr yn bleidiol bellach i ryfel cyfiawn?**
Nac ydwyf, does y fath beth yn bod â rhyfel cyfiawn.

**20. Beth yn y byd hwn yn 2015 sydd yn rhoddi boddhad llwyr i chwi?**
Er bod Cristnogaeth i'w gweld ar drai yma, ei bod ar gynnydd yn y byd: *'Mae'n tynnu yma i lawr, Yn codi draw.'*

# CORNEL Y TRYSORYDD

## TACHWEDD 2015

| | |
|---|---|
| Mr William McEvoy, Mossley Hill | £20.00 |
| Mrs Elan Jones, Mossley Hill | £10.00 |
| Mrs Devida Broadbent, Huyton | £10.00 |
| Dr Bethan McGuigan, Thingwall | £11.00 |
| Mrs Elisabeth Owen, Halewood | £15.00 |
| Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth | £50.00 |
| Mrs Lilian Coulthard, Aigburth Vale | £25.00 |
| Mrs Eryl Chitty, Gateacre | £20.00 |
| Mr Ralph Jones (Er Côf am Nancy), Llanberis | £20.00 |
| Mrs Olwen Jones, Childwall | £20.00 |
| Mrs Louie Jones, Childwall | £20.00 |
| Mr a Mrs Brian Thomas, Mossley Hill | £10.00 |
| Mrs Gwen Rigby, Mossley Hill | £10.00 |
| Mrs Gwenfyl Haynes, Wavertree | £25.00 |
| Mrs Evelyn James, Pwllheli | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£286.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

Myfyrdod

# SUL Y COFIO

gan Elwyn Parry

Dyma ni eto yn nesau at SuI y Cofio. Beth ydyw i chi? Melltith neu Fendith? Dywedodd Tennyson **"Death closes all"** pan ddaw trasiedi ac mae hyn yn cael arddeliad gan rai pobl. Ar y llaw arall mae eraill yn cael cysur mewn sicrwydd Paul **"death has no more dominion"** dros Crist a thrwyddo Efei bobl. Does ots wedi'r cyfan pa ffordd yr edrychwch ar fywyd mae Marwolaeth yn brifo onid yw? Mae colled erchyll mewn rhyfel yn dod ag angen am ddealltwriaeth a theimladrwydd mawr – ein hanwyliaid, yr hogiau a'r merched, hufen dynoliaeth wedi'u haberthu oherwydd fod y Bwystfil wrth y drws ac fe roesant eu **"today for our tomorrow".**

Pan oeddwn yn y fyddin yn Ghana, gorllewin Affrica cofiaf Caplan yr adeg hynny, Is-gyrnol L.V. Headley, yn sôn am "Gras Dioddefaint". **The grace of suffering** ac wir doeddwn ddim yn deall yr adeg hynny yn filwr deunaw oed. Erbyn heddiw yn fy henaint er gofyn droeon imi fy hun oedd gras mewn dioddefaint credaf fy mod yn nes i'r lan. Mae'n anodd wrth feddwl am y ddau rhyfel byd, y rhyfeloedd wedyn, yr holl derfysg gyda bomiau, y lladd sy'n ddi-synnwyr, dioddefaint ffoaduriaid a'r holl boen a difrod sy'n cynnwys **"man's inhumanity to man,"** y cwestiwn ydyw a oes gras?


Soniais fod cofio yn felltith neu fendith, wel imi, bob amser yn fendith ac rydw'n dragwyddol ddiolchgar i'r Duw mawr amdano. Cael rhosod ym mis Rhagfyr a chofio adeg mebyd a'r gymdeithas oedd yn dangos imi "llwybrau pwysig bywyd". Cofiaf dyddiau ysgol a'r hen Tom Davies y Prifathro yn ei wersi ar hanesion Rhufain a gwlad Groeg ac yn sôn am Pandora's Box – ydych yn cofio? Heb fanylu dim ar yr hanes mae hi'n agor blwch gwaharddedig gan ollwng ei holl ddrygau i'r byd OND llwyddodd fodd bynnag i gadw "GOBAITH" rhag dianc ohono. I mi, dyna'r gyfrinachi ni heddiw.

Mae'n ddinistriol iawn i beidio gobeithio. Teimlaf i'r eithaf bod yna gyfrifoldeb aruthrol arnom "bobl y Ffydd" i geisio dod a ryw faint o oleuni i fyd dywyll ofanadwy heddiw. Sut meddech? Cofiaf yr hen John Sam yn yr ysgol ers talwm oedd yn "hopeless case" hefo syms ond un diwrnod fe ddaeth a chael marciau llawn am ei waith cartref!! Gofynnodd yr athro, – "Did you do these syms?" John bach yn ddiniwed iawn yn dweud "No, sir, my father helped me". Iesu Grist wnaiff ein helpu trwy Ei air "Gorffennwyd" ar y Groes. Wrth y Groes sy'n cynrychioli, fel ddywedodd rhywun ***"the hope of those who continue to believe, even when there is nothing left in heaven and on earth to make sense of their faith ..... In our hearts we keep God alive although he is absent from all awareness and reason"***. Efallai na welwn "ni bydd rhyfel mwy" ond mae fy ffydd yn dweud wrthyf yn feunyddiol mai nodwedd DUW ydyw gorffen Ei waith a does dim sicrach na hyn.

Mae Tennyson yn dweud ***"More things are wrought by prayer than this world dreams of"*** ac mor wir. Wyddoch chi fe ddywedodd rhywun bod y pethau mawr pwysig yn aros sef FFYDD, perthynas personol a Duw; grym positif GOBAITH; a thragwyddol GARIAD dwyfol, sydd y grym i iachau'r byd. Ynddynt hwy y gobeithiwn.

# GWEDDI

***gan y Parchedig Ddr. Elfed ap Nefydd Roberts, Abergele***



## IESU YN Y CANOL

Arglwydd Iesu,
diolch i ti am ddod i ganol ein bywyd a'n cyflwr
i fod yn geidwad ac yn gyfaill i ni.
Pan deimlwn yn ofnus,
pan fydd ein pryderon yn troi'n hunllef i ni,
a phan weddïwn dros eraill
sydd yn nhywyllwch eu gofidiau:
Iesu, bydd di yn y canol.
Pan ddaw afiechyd i'n blino,
pan fydd poen a llesgedd yn mynd yn drech na ni,
a phan weddïwn dros eraill sy'n wael ac yn wan:
Iesu, bydd di yn y canol.
Pan ddaw anghydfod
i chwalu'n perthynas a chyfeillion ac anwyliaid, a
phan geisiwn gyfryngu cymod
a goresgyn ffrae:
Iesu, bydd di yn y canol.
Pan geisiwn weithio dros dy deyrnas yn y byd,
pan gawn ein digalonni gan fethiant a diffyg
ymateb,
a phan weddïwn dros dy Eglwys
ym mhob cwr o'r ddaear:
Iesu, bydd di yn y canol,
Pan ddown ynghyd i addoli,
i ddathlu'n ffydd,
i offrymu mawl a diolch,
i wrando'r Gair a thorri bara,
i rannu cymdeithas a'n gilydd
ac i geisio dy gwmni di:
Iesu, bydd di yn y canol,
Yn awr a phob amser. Amen

# THEATR CLWYD YN ESQUEL



Cynhaliwyd Gwasanaeth a Chymun bendithiol yng Nghapel Seion dan arweiniad Isaias Grandis. Roedd yn braf gweld llawer o ffyddloniaid Seion yn bresennol a chroesawyd Llewelyn i'w oedfa cynta gan Aira Roberts. Yr union noson roeddwn i gyd yn edrych ymlaen i groesawu Michael a Ryan adre.

Pwy fuasai'n meddwl fod chwech wythnos wedi mynd ers i ni groesawu Theatr Clwyd i Esquel. Mae'r ddau fachgen talentog yn amlwg wedi gwerthfawrogi yr holl brofiad o actio, canu, cymdeithasu a chael cyfle i siarad Cymraeg a chydweithio a threulio cymaint o amser gyda chyfeillion newydd o Gymru.

Bu Sioe'r 'Mimosa' yn uchafbwynt eleni. Cynhaliwyd y perfformiad cyntaf yma yn Auditorio Muncipal Esquel. Theatr orlawn a phawb yn gwerthfawrogi gwaith y Cyfarwyddwr ac Ysgifennydd y sgript sef Tim Baker. Gwerthfawrogwn waith y Cyfansoddwr a Chyfarwyddwr Cerdd Dylan Jones am ei gerddoriaeth oedd yn asio'n berffaith gyda geiriau Tudur Dylan. Bu hon yn noson arbennig iawn a chast o ieuenctid brwdfrydig yn rhannu llwyfan gyda'r actorion proffesiynol. Daeth a sawl deigryn i lygaid llawer o bobl lleol a Chymry oedd yn y gynulleidfa.

Ymysg nifer o weithgareddau eraill trefnwyd Gweithdy Drama gwych o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Tim Baker yn y Ganolfan yn Esquel. Rhoddodd hwn flas arbennig i bawb a dealltwriaeth o waith cyfarwyddwr profiadol iawn.

Cafodd tri aelod o Gangen Clwyd gyfle i fynychu cyfweliad gyda'r gyflwynwraig Estella Murua ar Radio Nacional Esquel. Roedd yn bleser clywed Elan Meirion, Alys Mari Wynstanley a Steffan Wilson Jones, aelodau o gangen Clwyd, yn siarad ac yn creu ymwybyddiaeth pellach o holl hanes y Mimosa.

Cafodd y cast noson arbennig yn La Barra Parilla Esquel ac Asado blasus yng nghwmni Claudia, Alan, Oscar a Michael. Noson i'w chofio gan bawb.



Bu'r Noson Gymdeithasol a drefnwyd ar y cyd rhwng Menter Patagonia a nifer eraill o gynrychiolwyr o Esquel yn lwyddiant ysgubol. Diolchwn i'r Gymdeithas yn Esquel am sicrhau gwledd i bawb. Roedd yn wych, a theuluoedd Michael a Ryan yn diolch fod y ddau wedi cael cymaint o brofiad.

Yn dilyn yr holl adloniant uchod croesawyd mwy o ymwelwyr o Gymru. Cawsom gwmni Suzanne Condon sy'n diwtor Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Rhoddodd gyflwyniad ardderchog ar y Fari Lwyd brynhawn Sadwrn yn y Ganolfan a diolch iddi am ei chefnogaeth yn Ysgol 24 ac yna yn nosbarth y plant lleiaf. Bu'n mynychu nifer o ddosbarthiadau gyda'r tiwtoriaid lleol. Diolchwn iddi am ei chymorth yma.

Gwerthfawrogwyd ymweliad Dafydd Tudur a Berian Rhys Elias o'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a chynhaliwyd dwy sesiwn arbennig ganddynt yn y Ganolfan yn Esquel. Cyfle perffaith i bobl ddod a deunydd i rannu atgofion ac i ddysgu sganio.

Diolch i bawb am eich cefnogaeth. Byddwch yn falch i glywed fod 'Llais yr Andes' yn cael ei argraffu yr wythnos yma.

Cofion annwyl at bawb

***ELUNED JONES***

***Swyddog Datblygu'r Gymraeg, Cynllun yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia.***

Tu mewn Tachwedd_Tud 8 Mehefin.qxd 17/10/2015 10:59 Page 11

**Pytiau Pwysig**

## Canslo Cymraeg mewn diwrnod! (Sadwrn 24 Hydref)

**Am ryw reswm na ellir ei amgyffred bydd yn rhaid canslo y diwrnod a hysbysebwyd mewn dau rifyn o'r *Angor.* Diolchir i'r tiwtor Ann Wyn Barker am gynnig ei gwasanaeth. Dim ond tri enw a ddaeth i law Golygydd *Yr Angor.***
**Gwell lwc y tro nesaf am y cwrs undydd Cymraeg i oedolion a'r rhai sydd am ymarfer siarad ein hiaith.**

## *Cofeb y Milwyr yn y Bala*

Na, nid meirwon mohonynt, – nid yw'r cof
Wedi'r cur amdanynt
Yn gaeth, canys mae'n y gwynt
Enw pob un ohonynt.

Y Prifardd Elwyn Edwards

### *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2015. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
**i) Rhifyn Rhagfyr 2015/Ionawr 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 31 Hydref – neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk

**ii) Rhifyn Chwefror 2016** – erbyn bore Sadwrn, 2 Ionawr, 2016 – y lluniau, adroddiadau etc.

**iii) Rhifyn Mawrth 2016 –** erbyn bore Sadwrn, 30 Ionawr, 2016 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn ar 1 Chwefror 2016.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk
- **Pwyllgor Gwaith nesaf** – ar lein (BT), pnawn Llun, 11 Ionawr 2016 am 2.30 o'r gloch

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## STORI CAPEL WAENGOLEUGOED

Sul, Gŵyl a Gwaith

****

Dathlu Daugannmlwyddiant (1815-2015) yr Achos



Golygydd: Mari Lloyd-Williams

Cyhoeddiadau Modern

**Pris £10.00 (trwy'r post £12) oddi wrth yr Athro Mari Lloyd-Williams neu'r cyhoeddwyr, 32 Garth Drive, Lerpwl, L18 6HW**

# ATEBION

**ANAGRAMAU ...**

1. OWAIN GLYNDWR
2. BRYN TERFEL
3. GARETH EDWARDS
4. EMLYN WILLIAMS

**GWNEUD GEIRIAU: PERTHNASAU**

AUR, ARTH, AETH, EPA, NES, NEU, PAN, PETH, THUS, SAT, AREN, ASEN, ANAP, NERTH, PARTH, PERT, PARA, PARU, SARN, PREA, PRES, SANT, SAETH, SATHR, NERTHU, PARTHU, SAETHU, PAUN, ASETHU, SAETHAU, NERTHAU, SAETHAU.

**PWY YDYNT**

1. DEWI
2. BEN
3. MAIR
4. NORMA
5. MALDWYN
6. LLEW
7. IEUAN
8. ALEC (Cael!)
9. MEGAN
10. RHIANNON
11. BOB
12. MYFANWY

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

## Cystadleuaeth Golff Cymry Lerpwl 2015



*Phil O'Connor, Kenny Tsao ac Alun Davies – tîm gorau y dydd*



*Eirlys Bailey (enillydd y merched) ac un o deuluoedd Capel Princes Road*


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors® Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514